# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2322 |
| Committee | Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Date | 10/09/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Stewart Healy (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Peter Baldwin (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Michelle Morris (Swyddog)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Richard Crook (Swyddog)<br>Rhian Hayden (Swyddog)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Clive Rogers (Swyddog)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Andrew Parker (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Monitor)<br>Pob Cynghorydd (Monitor)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5253 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| | |

| Item ID | 5254 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Healy (Cadeirydd) a T. Smith. |

| Item ID | 5255 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 5256 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2021.<br><br>**<u>CCTV</u>**<br><br>Esboniodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid pam nad oedd yr adroddiad cynnydd ar CCTV ar yr agenda fel a nodwyd yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol. Rhoddodd sicrwydd i Aelodau fod gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn ac y byddai'n fwy buddiol i gyflwyno adroddiad gyda mwy o sylwedd i Aelodau ei ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>Cododd Aelod bryderon am yr oedi yng nghyswllt yr adroddiad cynnydd ar CCTV a theimlai fod angen adroddiad fel mater o frys.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 5264 |
|---|---|
| Item Title | Monitro Perfformiad Chwarterol Strategaeth Cyfathrebu (Ebrill – Mehefin 2021) |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid sy'n rhoi diweddariad chwarter 1 (Ebrill i Fehefin 2021) ar y Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Dywedodd Aelod y teimlai nad oedd yn ymddangos fod unrhyw ryngweithio rhwng Aelodau blaenllaw a newyddiadurwyr a phapurau newydd lleol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am gyswllt uniongyrchol gyda'r cyfryngau, cadarnhaodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid fod Tîm |

| | |
|---|---|
| | Cyfathrebu Corfforaethol y Cyngor yn ymwneud yn uniongyrchol gyda'r wasg a chydweithwyr yn y cyfryngau.<br><br>Dywedodd Aelod fod rhai aelodau'r wasg yn edrych ar-lein ar gyfarfodydd pwyllgorau ac y bu peth beirniadaeth yn y dyfodol fod aelodau wedi cyhoeddi datganiadau unigol ar y cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Teimlai'r Aelod eu bod, fel Aelodau a etholwyd gan y cyhoedd, yn atebol i'r cyhoedd am y penderfyniadau a gymerir ac mai'r ffordd orau i wneud hynny yw drwy'r wasg leol a chredai y dylai arweinyddiaeth y Cyngor fod yn rhagweithiol yn y cyswllt hwn.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am y rhesymeg wrth benderfynu pa bapur newydd fyddai'n cael pa stori, esboniodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid y cymerir dull gweithredu deuol weithiau. Os oes pwnc penodol, byddent yn edrych ar y rhwydwaith mwyaf perthnasol; os oes angen ymagwedd ehangach, yna byddai'r erthygl neilltuol yn cael ei rhannu'n ehangach. Fodd bynnag, efallai nad yw pob rhwydwaith yn penderfynu eu cyhoeddi.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef cymeradwyo' diweddariad cynnydd 1 ar y Strategaeth Cyfathrebu. |

| Item ID | 5265 |
|---|---|
| Item Title | Monitro Perfformiad Chwarterol Strategaeth Fasnachol (Ebrill – Mehefin 2021) |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid sy'n cyflwyno diweddariad cynnydd chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2021) ar y Strategaeth Fasnachol.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddi.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at yr Hybiau Cymunedol a chododd bryderon am gyfathrebu yng nghyswllt amserau gweithredu a'r gwasanaethau a ddarperir o fewn yr Hyb Cymunedol yn y Blaenau. Teimlai y dylai hyb y Blaenau fod ar agor yn wythnosol, yr un fath ag yn Abertyleri, Tredegar, Brynmawr a Glynebwy, er mwyn galluogi preswylwyr i gael mynediad mwy aml i wasanaethu a chynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r hyb. Teimlai nad yw hysbysebu ar Facebook yn cyrraedd pob cenhedlaeth o'r cyhoedd. Sicrhaodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid yr Aelod eu bod yn edrych ar ddulliau mwy traddodiadol o gyfathrebu tebyg i daflenni mewn meddygfeydd teuluol a siopau ac yn y blaen i gyrraedd cynifer o breswylwyr ag sydd modd i sicrhau eu bod yn gwybod am y gwasanaeth. Yng nghyswllt yr amserlen gweithredu, mae hyn yn ddull sy'n datblygu a byw a byddai'n rhoi ystyriaeth i'r nifer o ymholiadau a geir gan breswylwyr a'r galw am y gwasanaeth. Dywedodd yr Aelod fod amserlen weithredu ddiwygiedig ar y |

| | |
|---|---|
| | gweill ar gyfer chwarter 2 ymlaen.<br><br>Dywedodd Aelod arall fod hybiau cymunedol yn gweithio'n dda ac yn dod â gwasanaethau yn nes at y cyhoedd. Yng nghyswllt Hyb Cymunedol Brynmawr, cododd bryderon am breifatrwydd a theimlai y dylai ystafelloedd fod ar gael ar gyfer trafodaeth breifat. Soniodd hefyd nad oes arwyddion y tu allan i'r adeilad i nodi ei fod yn hyb cymunedol. Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Gweithredol eu bod yn gweithredu mewn gofod neilltuol ar hyn o bryd a chytunodd y gall fod achlysuron pan y gallai preswylydd fod eisiau sgwrs fwy preifat a byddai'n mynd ati i sicrhau fod y cyfleuster hwnnw ar gael i breswylwyr. Yng nghyswllt arwyddion, dim ond ar y dydd y mae'r Llyfrgell ar gau y gallai'r Hyb Cymunedol weithredu oherwydd y cyfyngiadau cenedlaethol ar y pryd. Roedd staff y llyfrgell wedi codi arwyddion yn dweud pryd yr oedd yr Hyb Cymunedol ar agor a byddai'n edrych ar barhau hynny yn y dyfodol.<br><br>Dywedodd Aelod fod Hybiau Cymunedol yn profi'n llwyddiannus a theimlai gan mai nhw yw drws blaen yr awdurdod lleol a threfi unigol y dylent ddarparu ar gyfer Blaenau Gwent i gyd i sicrhau fod gan bawb fynediad i wasanaethau. Cyfeiriodd Aelod at y Bwrdd Comisiynu Strategol a Masnachol a holodd os y cyflwynir posibiliadau buddsoddi i'r Cyngor llawn. Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid y byddai unrhyw fuddsoddiad yn mynd drwy'r broses ddemocrataidd. Mae'r Bwrdd Comisiynu Strategol a Masnachol yn edrych ar gyfleoedd cynnar a byddid yn dilyn yr holl drefniadau a phrosesau democrataidd yn unol â chyfansoddiad y Cyngor.<br><br>Cefnogodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol sylwadau'r Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid a dywedodd fel Awdurdod a arweinir gan ei Aelodau, y byddai unrhyw gyfleoedd sy'n codi o weithgaredd masnachol yn mynd drwy'r broses ddemocrataidd i Aelodau ei hystyried ar p'un ai i'w cefnogi a'u gweithredu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef cymeradwyo'r diweddariad cynnydd chwarter 1 ar y Strategaeth Fasnachol. |

| Item ID | 5266 |
|---|---|
| Item Title | Perfformiad Absenoldeb Salwch 2020/21 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau Etholedig i graffu a herio perfformiad absenoldeb salwch ar gyfer 2020/21, y camau gweithredu parhaus i gefnogi gwelliant mewn presenoldeb a chydnabod presenoldeb cadarnhaol mwyafrif y gweithlu.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo. |

| | |
|---|---|
| | Holodd Aelod am ddefnydd rheolwyr o system iTrent a pha gefnogaeth sydd ar gael i staff ar absenoldeb salwch hirdymor oherwydd problemau iechyd meddwl. Rhoddodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol sicrwydd y cafodd rheolwyr hyfforddiant a'u bod yn awr yn defnyddio system iTrent yn gywir i dynnu data absenoldeb salwch o'r system. Yng nghyswllt cefnogaeth ar gyfer staff gyda phroblemau iechyd meddwl, mae amrywiaeth o gefnogaeth ar gael sy'n cynnwys Iechyd Galwedigaethol, y rhaglen Cymorth i Gyflogeion a'r polisi Rheoli Presenoldeb i reolwyr ei gweithredu wrth gefnogi unigolion gyda phroblemau salwch.<br><br>Holodd Aelod os yw'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol yn craffu ar yr adroddiadau absenoldeb salwch i sicrhau fod yr un lefel o reolaeth yn cael ei gweithredu'n gyson ar draws y Cyngor. Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y cyflwynir yr holl wybodaeth chwarterol ac ystadegol i'r Tîm ei hadolygu ac mae gan bob Cyfarwyddiaeth adolygiad parhaus o 20 uchaf yr achosion hirdymor gyda golwg ar alluogi'r aelodau hynny o staff i ddychwelyd i'r gwaith.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at ddadansoddiad o absenoldeb salwch yn ôl maes gwasanaeth ar dudalen 43 yr adroddiad a holodd am wasanaethau darparydd. Esboniodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol fod hynny'n cyfeirio at wasanaethau rheng flaen h.y. gofal yn y cartref, Cwrt Mytton a byw â chymorth Tai â Chymorth Tŷ Augusta. Dywedodd wrth Aelodau fod ffigurau cyffredinol yn yr adroddiad a bod ffigurau'n eithrio absenoldeb salwch cysylltiedig â Covid.<br><br>Soniodd Aelod am y pwysau enfawr sy'n wynebu iechyd a gofal cymdeithasol a theimlai fod y ffigurau yn ganlyniad uniongyrchol yr hyn sy'n digwydd ar draws y wlad i gyd.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol y bu 2021 yn flwyddyn anodd, yn neilltuol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol rheng-flaen yng nghyswllt ymateb i'r feirws. Bu staff dan bwysau a straen enfawr yn darparu gwasanaeth a cheisio cadw pobl yn ddiogel yn y gymuned am gyfnod hir. Gofynnwyd hefyd i rai staff weithio mewn amgylchedd gwahanol a gall hyn fod wedi achosi mwy o bwysau a phryder. Mae ffigurau salwch yn uchel ond bu nifer o ffactorau lliniaru yng nghyswllt Covid a hefyd broblem genedlaethol am recriwtio staff gofal cymdeithasol. Maent yn ceisio lliniaru rhai o'r pwysau hynny ar hyn o bryd a gan weithio o safbwynt Blaenau Gwent, yn ceisio canfod datrysiadau gyda chydweithwyr Iechyd sydd hefyd yn wynebu'r un problemau a phwysau o fewn eu gwasanaethau.<br><br>Canmolodd y Cadeirydd yr holl Gyfarwyddiaeth am eu gwaith caled a'u hymroddiad mewn amgylchiadau eithriadol.<br><br>Atgoffodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol yr Aelodau y fod y darlun yn gwella o gymharu â'r llynedd yng nghyswllt absenoldeb salwch. Mae mannau problem sy'n cael eu hadolygu, ond mae gwelliant mewn absenoldeb salwch o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd Aelod fod yr Atodiad yn dangos fod ffigurau absenoldeb salwch gwell ym mhob awdurdod lleol a theimlai fod y gwelliant hwnnw yn dod o staff yn gweithio gartref a bod angen cymharu gyda'r set nesaf o ffigurau perfformiad i weld os byddent yn gwella ymhellach.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef cymeradwyo'r camau cyfredol i gefnogi gwelliant mewn presenoldeb. |

| Item ID | 5267 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith: 22 Hydref 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid wrth Aelodau y byddent yn edrych ar ddod â dau adroddiad diweddaru ar gynnydd CCTV a chynllun Adsefydlu yn y Deyrnas Unedig ddechrau'r hydref.<br><br>Gofynnodd Aelod am i sesiwn wybodaeth i Aelodau gael ei threfnu yng nghyswllt y cynllun Ailsefydlu. Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid y trefnir hynny cyn cyflwyno'r adroddiad ffurfiol i'r Pwyllgor fel y byddai pob Aelod yn gwybod am y dull gweithredu a ddilynwyd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef cytuno ar y Flaenraglen Gwaith ar gyfer y cyfarfod ar 22 Hydref 2021 a bod dau adroddiad ychwanegol yn cael eu cyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ddechrau'r hydref:-<br>• Adroddiad cynnydd CCTV<br>• Cynllun Adsefydlu y Deyrnas Unedig<br><br>a CHYTUNWYD YMHELLACH i gynnal Sesiwn Wybodaeth i bob Aelod yng nghyswllt y Cynllun Adsefydlu cyn cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol. |